# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Tachwedd 2023

Amser: 14.00 - 15.31

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13554

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Joel James AS<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | David Blackwell, St Richard Gwyn Catholic High School, Barry and Chair of the vale of Glamorgan Education Budget Forum<br>Matthew Gilbert, Barry Island Primary School<br>Laurence Matuszczyk, Merthyr Tydfil School Governor Association<br>Dr Martin Price, Vale School Governor Association |
| Staff y Pwyllgor: | Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Sesiwn dystiolaeth - P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Martin Price, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro, Laurence Matuszczyk, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Merthyr Tudful, David Blackwell, Pennaeth Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, y Barri a Chadeirydd Fforwm Cyllideb Addysg Bro Morgannwg. a Matthew Gilbert, Pennaeth, Ysgol Gynradd Ynys y Barri.

## 3 Deisebau Newydd

### 3.1 P-06-1360 Dylid adeiladu ffordd ymadael syml rhwng yr M48 tua'r gorllewin a'r M4 tua'r dwyrain yn Rhosied

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru a nododd nad oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno ffordd ymadael yn y lleoliad hwn, ac na fyddai'r mater penodol hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ariannu ffyrdd newydd yn dilyn yr Adolygiad Ffyrdd.

Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

### 3.2 P-06-1364 Argyfwng deintyddiaeth yng Nghymru. Rhaid sicrhau bod gan bob oedolyn a phlentyn fynediad at ddeintydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ac o ystyried bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol eisoes wedi cynnal gwaith craffu manwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf - a bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion ei hadroddiad - nid yw'n glir beth arall y gallai'r Pwyllgor ei wneud ar hyn o bryd er mwyn ychwanegu gwerth pellach.

Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor i gau’r ddeiseb, gan ddiolch i’r deisebydd am amlygu'r mater pwysig hwn.

### 3.14 P-06-1365 Ailagor llinellau rheilffyrdd i gysylltu gogledd a de Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb cyn penderfynu ar y cam nesaf.

### 3.4 P-06-1366 Adfer y cyllid ar gyfer gwasanaethau Bysiau Cwm Taf 351 (Dinbych-y-pysgod i Bentywyn) a 352 (Dinbych-y-pysgod i Gilgeti)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chroesawodd gadarnhad y Dirprwy Weinidog y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ystyried y ddau lwybr hyn yn ofalus fel rhan o’u trafodaethau ag awdurdodau lleol. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog i ofyn am ddiweddariad ar ganlyniad y drafodaeth ar y llwybrau penodol hyn.

### 3.5 P-06-1368 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gadw’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol mewn perthynas â Chymru

Diolchodd y Pwyllgor i’r myfyrwyr am gyflwyno eu deiseb, ac am rannu eu dadansoddiad technegol manwl sy’n gwneud cyfres o argymhellion i ddiwygio’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn y dyfodol.

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i rannu gohebiaeth y deisebwyr, ac i ofyn am atebion i'r cwestiynau a amlinellwyd yn eu hymateb.

At hynny, cytunodd yr Aelodau i dynnu sylw at y ddeiseb a rhannu gohebiaeth y deisebwyr â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, sy'n monitro'r rheoliadau hyn ar hyn o bryd.

### 3.6 P-06-1369 Defnyddiwch enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gomisiynydd y Gymraeg yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelu enwau Cymraeg lleoedd yng Nghymru.

Nododd Joel James, MS, nad yw'n cefnogi craidd y ddeiseb.

### 3.7 P-06-1370 Achub y ddarpariaeth mân anafiadau dros nos yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i godi ymwybyddiaeth o'r ddeiseb, gofyn iddynt ei chynnwys fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gofyn beth yw eu cynlluniau a'u hamserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben, sydd wedi'i ymestyn i 1 Rhagfyr.

### 3.8 P-06-1373 Dylid atal Llywodraeth Cymru rhag gwastraffu £4 miliwn ar ddatblygiad preifat "Skyline" ar Fynydd Cilfái, Abertawe

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd gryfder y teimlad a'r gwaith manwl gan ymgyrchwyr.

Cytunodd yr Aelodau i dynnu sylw'r awdurdod lleol at y ddeiseb a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei wneud ar y mater.

### 3.9 P-06-1375 Cynnal etholiad Senedd yn gynnar

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb Llywodraeth Cymru cyn penderfynu ar y cam nesaf i'w gymryd, gan gynnwys ystyried a ddylid gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-06-1356 Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei ymweliad diweddar â safle cyffordd 'Mynegbost' yr A477 lle cyfarfu â'r Aelod o'r Senedd lleol, Sam Kurtz, ynghyd ag ymgyrchwyr, cynghorwyr lleol, a chynrychiolwyr o swyddfa Simon Hart.

Cytunodd yr Aelodau i aros am ganlyniad y ddadl sydd i'w chynnal ar 22 Tachwedd.

## 5 Papur i'w nodi P-06-1326 – Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

Nodwyd y papur.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod y dystiolaeth – P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd.